

# YSGOLHEICTOD CHWAETHUS

gan BRYNLEY F. ROBERTS

UN o ddelfrydau to cyntaf ysgolheigion Cymraeg Prifysgol Cymru oedd dwyn i olau dydd rai o'r trysorau llên a oedd yn dal i ymguddio yn y llawysgrifau. Dyna oedd symbyliad sefydlu'r *Bangor Welsh Manuscripts Society* yn 1907. Thomas Shankland, llyfrgellydd Coleg Bangor, oedd y prif ysgogydd, yntau newydd ddod i Fangor ac wrthi ar waith mawr ei fywyd yn codi llyfrgell ymchwil Gymraeg o'r radd flaenaf yn y coleg. Aeth ef ati gyda John Morris-Jones, W. Lewis Jones a J. E. Lloyd i gylchlythru nifer o Gymry amlwg fis Chwefror 1907 i'w gwahodd i ymuno â chymdeithas a fyddai'n ymgymryd â chyhoeddi testunau llenyddol a hanesyddol Cymreig, Cymraeg a Lladin, a oedd ar gael mewn llawysgrifau, a'u golygu yn ôl safonau uchaf ysgolheictod diweddar.

Cyfarfu Cyngor cyntaf y Gymdeithas newydd ym Mangor 27 Chwefror 1907, wythnos ar ôl ei sefydlu. Ar y dechrau yr oedd tua 50 o aelodau ond erbyn 1910 yr oedd y rhif wedi codi i tua 80. Yr Arglwydd Kenyon oedd y llywydd, ymhlith yr is-lywyddion yr oedd J. Gwenogvryn Evans (cynigiodd ef ei gopïau o rai o'r testunau canoloesol i'r Gymdeithas), Syr Harry Reichel, Syr John Rhŷs a Hugh Williams; Thomas Shankland oedd yr ysgrifennydd, Ifor Williams yn ysgrifennydd cynorthwyol, ac ar y Cyngor ysgolheigion megis John Morris-Jones, John Fisher, W. Lewis Jones, S. J. Evans, R. Silyn Roberts a J. C. Morrice.

Pwrpas y Gymdeithas oedd golygu a chyhoeddi 'Dogfennau gwreiddiol yn ymwneud â Chymru'. Y bwriad ar y dechrau oedd cyhoeddi un gyfrol yn flynyddol, yn ôl fel y caniatâi'r cyllid, a'r rheini i'w dosbarthu i aelodau yn unig, nid i'w gwerthu i'r cyhoedd. Buan iawn yr anghofiwyd am hyn a'r arfer oedd argraffu 200 o gopïau o bob cyhoeddiad: ni lwyddwyd ychwaith i gyhoeddi cyfrol yn flynyddol. Ond rhwng 1908 a 1914 ymddangosodd pum teitl, wedi'u rhifo I, II, III & IV, V, V-VI-VII, i adlewyrchu'r ddelfryd o gyhoeddi un gyfrol bob blwyddyn. Daeth y Gymdeithas i ben yn 1927 er ei bod wedi peidio â bod yn weithredol ers 1914.

Rhodddi pwys ar argraffu da a gofal am y diwyg o'r dechrau cyntaf fel yr awgryma manylion amcangyfrif y llyfr cyntaf: 250 copi '+ 25 extra each', 'foolscap or demy 8<sup>vo</sup>, hand made paper or good finished white paper — old face type, 40 pages, coloured paper covers'. Cynigiodd R. E. Jones & Bros., Conwy, £9.15.6 am 200 'hand made paper', £4.6.0 'good finished paper'. Woodhall,

Minshall, Thomas & Co., Croesoswallow, £9.14.0 a £7.2.0; ond pris Jarvis & Foster, Bangor (na wn beth ydoedd) a dderbyniwyd a hwy a gafodd holl waith y Gymdeithas o hynny allan. Yr oedd amryw o aelodau blaenllaw'r Gymdeithas eisoes wedi defnyddio'r wasg hon ac ni ellid amau na fyddai'n cynhyrchu gwaith o ansawdd dda.

Yr oedd y blynyddoedd cyntaf o 1907 hyd 1912 yn rhai llawn brwdfrydedd a chynlluniau, a'r Cyngor yn trefnu testunau a golygyddion am y blynyddoedd dilynol: 1907 *Gwaith Hywel Swardwal* gan J. C. Morrice a 'Minutes of the Commissioners for North Wales under the Act for the Propagation of the Gospel' gan Thomas Shankland ar gyfer 1908; 1908 'Vita Sancti Tathe'i' gan Idris Bell ar gyfer 1909; 1909 *Gwaith Ieuan Deulwyn*, cyfrol ddwbl, gan Ifor Williams ar gyfer 1909; *Gwaith Gruffudd ab Ieuan* fyddai cyfrol 5 a gramadeg *Llyfr Coch Hergest* gan J. Gwenogvryn Evans fyddai cyfrol 6 (ond yn ddiweddarach John Morris-Jones a enwyd yn olygydd) ar gyfer 1910; llyfr gan J. E. Lloyd a fyddai'n gyfrol 7 ar gyfer 1911; a llyfr gan Edward Owen yn gyfrol 8 yn nes ymlaen; yn 1912 enwyd tair cyfrol *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* yn gyfrol 6 (1910, yn lle'r gramadeg) a chyfrolau 7 ac 8 (yn lle llyfrau J. E. Lloyd ac Edward Owen). Erbyn 1914 pan ymddangosodd *Gwaith Dafydd ab Edmwnd* yr oedd yn amlwg fod y Gymdeithas yn wynebu problemau. Ni fuasai cyfarfodydd ers pedair blynedd ac adroddwyd fod anawsterau wedi codi wrth geisio cael cyfrol 1910 urwy'r wasg er bod ail gyfrol y flywyddyn honno, meddid, sef gramadeg y *Llyfr Coch* 'now nearly ready for issue'. Ni ddaeth y gyfrol honno, ac ni chlywir rhagor o sôn am y Gymdeithas hyd fis Ebrill 1927 pan alwyd cyfarfod i'w diddymu. Gwerthwyd y stoc o gyhoeddiadau am 5/- y rhan er budd Cronfa Gymreig Llyfrgell Coleg Bangor. Mae'n bosibl fod Galloway's, llyfrwerthwyr ym Mangor ac Aberystwyth, wedi prynu rhan helaeth o'r stoc gan fod setiau o'r gyfres yn ogystal â chyfrolau unigol i'w gweld yn eu siopau yn y 50au.

Rhan o hanes ysgolheictod y Gymraeg yn y cyfnod cyn sefydlu Gwasg Prifysgol Cymru yw ymdrech y *Bangor Welsh Manuscripts Society*. Bu farw oherwydd bod y golygyddion yn ysgolheigion ac athrawon prysur nad oeddynt yn gallu cyllawni eu haddewidion i'r Gymdeithas, a hefyd am fod rhyfel 1914-18

wedi'i hamddifadu o wasanaeth graddedigion ifanc adran Gymraeg Bangor megis Thomas Roberts (Borth-y-gest), a chollwyd o Gymru, am amrywiol resymau, ddyinion mor brofiadol â J. C. Morrice.

Dyma'r teitlau a ymddangosodd: J. C. Morrice, *Gwaith barddonol Howel Swardwal a'i fab Ieuan*, I, 200 o gopïau, Mawrth 1908; H. Idris Bell, *Vita Sancti Tathe'i and Buched Seint y Katrin*, II, 200 o gopïau, Medi 1909; Ifor Williams, *Casgliad o waith Ieuan Deulwyn*, III & IV, 200 o gopïau, Medi 1909; J. C. Morrice, *Detholiad o waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, V, 200 o gopïau, Mawrth 1910; Thomas Roberts, *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, VI, VII, VIII, 200 o gopïau, Ionawr 1914.

Nid yw cyfrolau'r Gymdeithas hon mor ddeniadol â rhai Gymdeithas Llên Cymru. Nid yw ansawdd y papur gystal a diflas braidd yw'r cloriau papur brown. Mae'r ymylon gor-lydan sydd i bob tudalen yn awgrymu efallai y disgwyliod y byddai prynwyr yn eu hailrwymo er bod y label wen yn amlwg wedi'i bwriadu i roi gwedd fwy gorffenedig i'r cloriau.

Yng nghyfarfod cyntaf yr is-



bwyllgor cyhoeddi ar 18 Hydref 1907 gwahodddwyd John Morris-Jones i lunio braslun o sêl i'r Gymdeithas a derbyniwyd ei gynnydd gan y Cyngor ymhen y mis ar 27 Tachwedd. Arwydd o'r parhad sydd rhwng y Gymdeithas a Gwasg Prifysgol Cymru yw ei fod ef wedi cyllawni gwaith tebyg iddi hithau pan sefydlwyd hi yn 1922 gan mai ef a gynlluniodd ei 'press mark' hithau.

Yn llyfrgell Coleg Bangor y mae papurau'r Gymdeithas. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Archifydd, Tomos Roberts, am hwyluso'r ffordd imi fynd atynt ac am bob cydweithrediad.

Printed at *Llanwenllethys* Rectory, *Arfon*  
by the then Rector, c. 1880.

## GAIR NEU DDAU AR YR ARFERIAD O BOERI MEWN TY ADDOLIAD.

- Ystyriwch,— 1. Mai tŷ Dduw ydyw.  
2. Eich bod, trwy boeri, yn talu llai o barch i Dduw nag i ddyn.  
3. Na fussoch yn poeri ar lawr parlwr neu gegin un o'ch cyeillion, am y rheswm y byddai hyn yn weithred ffiائد ac amharethus.

Mor isel ynte, y rhaid fod yr ymysniad o barch i dŷ addoliad, pan y gwelir yr arferiad gwrthun hwn mor fynyeh. Ond te ddichon mai diffyg ystyriaeth yw llawer o'r achos o hyn.

Gofyned pob un iddo ei hun:—

A ydyw yn llawer o both iddo ymaital, am awr, rhag yr hyn sydd yn pori iddo boeri?

Ai gweddus fyddai bwyta rhywboth yn ystod yr addoliad? Na fyddai, oithr anweddus i'r oithaf.

Ond ni fyddai mor anweddus â chnoi tybaco.

Bydded y gair hwnnw yn agos atfosh bob amser:

"TI, O DDUW, WYT YN EDRYCH ARNAF FI."

'Ar arferion Cymru gynt . . .' R. W. McDonald yn dod ar draws taflen mewn llythyr oddi wrth yr Archddiacon A. Owen Evans, Rheithorŷ Llanfaethlu, at J. H. Davies, Ebrill 4ydd 1918. Rheithor Llanwenllethys tua 1880 oedd John Evan Williams. Llsg. Cwmrmaur 971C.